# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Cadeirydd);<br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, Lewis Davies, K. P. Hughes, W. T. Hughes, T. H. Jones, R. L. Owen, Eric Roberts, Hefin Thomas, J. P. Williams.<br><br>**Aelodau Lleol**: Y Cynghorydd Eric Jones (Safle 1 un unig);<br>Y Cynghorydd Richard Dew (Safle 2 yn unig). |
| **WRTH LAW**: | Rheolwr Rheoli Datblygu (DFJ)<br>Swyddog Cynllunio (CR) (Safle 2 yn unig)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, Jim Evans. |

---

**1 41C109D - Cais amlinellol i godi annedd a garej, creu mynedfa i gerbydau a gwaith tirlunio ar dir ger Artwood, Star.**

Yn ei gyfarfod ar 4 Ebrill 2012 fe benderfynodd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion y dylid ymweld â'r safle er mwyn i'r Aelodau fedru asesu'r sefyllfa yn fwy cywir ac i weld hefyd beth oedd safleoedd perthynol tair annedd arall oedd wedi'u codi yn yr ardal yn y diweddar agos, gyda hynny wedi cael ei ddwyn i sylw'r Pwyllgor yn y cyfarfod ar 4 Ebrill.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu mai cais amlinellol ydoedd i godi un annedd a garej. Cyfeiriodd at fesuriadau'r plot a'i leoliad mewn perthynas â'r ffin bresennol i bentref Star a lle y byddai'r datblygiad arfaethedig yn eistedd o fewn y plot a hefyd dangoswyd lle y byddai'r fynedfa. Dangosodd y Swyddog i'r Aelodau lle yr oedd bwriad gwneud gwaith tirlunio o fewn y plot.

Edrychodd yr Aelodau ar dri safle arall yn yr ardal oedd yn agos i'r safle datblygu arfaethedig.

**2 28C445D – Cais llawn am le byw a llofft ychwanegol yn lle'r siale a'r garafan barhaol presennol, gwaith altro ac ymestyn i lawr cyntaf yr annedd bresennol, adeiladu pwll nofio a gwneud gwaith altro i'r fynedfa ynghyd â chynlluniau diwygiedig i'r garej a gymeradwywyd yn The Bungalow, Ffordd Maelog, Rhosneigr**

Yn cyfarfod ar 4 Ebrill 2012 roedd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion wedi penderfynu ar gais yr Aelod Lleol y dylid ymweld â'r safle fel y gallai'r Aelodau weld y safle cyn ystyried y cais.

Dywedodd y Swyddog Cynllunio mai bwriad oedd hwn i ddymchwel y siale a'r garafán barhaol sydd yno ar hyn o bryd ac yn eu lle godi adeilad deulawr newydd gyda llofft a lle byw fyddai 1.8m yn uwch nag uchder y garej oedd wedi cael ei chymeradwyo, gwaith altro i lawr cyntaf yr annedd gyfredol a chreu pwll nofio unllawr. Dangosodd y Swyddog gopi i'r aelodau o gynlluniau'r cais a'r gosodiad arfaethedig. Cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod y safle o fewn y ffin ddatblygu.

Tynnodd yr Aelod Lleol sylw at rhai pryderon oedd ganddo mewn perthynas â graddfa'r cynnig a'i effeithiau posibl ar fwynderau eiddo cyfagos.

Edrychodd yr Aelodau ar safle’r cais o wahanol gyfeiriadau er mwyn asesu ei effaith posibl.

**Y CYNGHORYDD J. ARWEL ROBERTS**
**CADEIRYDD**